

**Rhif y
prosiect:** Pwyllgor Cyngori Cymru
Awdur: Liz Nash

Cofnodion Cyfarfod rhif 73 Pwyllgor Cyngori Cymru (ACW) (11 Mehefin 2019)

Er gwybodaeth

Rhif y ddogfen: ACW74 (3) **Cyfarwyddwr y prosiect:** Eleanor Marks
Cyflwynwyd i: ACW 74 **Rheolwr y prosiect:**
Cyflwynwyd gan: Liz Nash **Dyddiad ysgrifennu:** 13 Mehefin 2019
Noddwr y prosiect: Elinor Williams

1. Mewnbyn y gofynnwyd amdano

Cymeradwyo cofnodion cyfarfod rhif 73 o Bwyllgor Cyngori Cymru a gynhaliwyd ar 11 Mehefin 2019.

2. Crynodeb o'r dadansoddiad

YN BRESENNOL:

Y Pwyllgor:

Hywel Wiliam (Cadeirydd) (HW)
Robert Andrews (RA)
Andrew Board (Aelod) (AB)
Peter Trott (Aelod) (PT)
Rem Noormohamed (RN)
Ruth McElroy (RMcE)

David Jones, Aelod Bwrdd Ofcom ar ran Cymru (DJ)

Staff Ofcom:

Eleanor Marks, Cyfarwyddwr, Cymru (EM)
Elinor Williams, Pennaeth, Materion Rheoleiddiol Cymru (EW)
Lloyd Watkins, Cyngorydd Materion Rheoleiddiol (LW)
Liz Nash, Cynorthwydd Materion Rheoleiddiol, Cymru (LN)
Joey Mayberry, Swyddog Graddedig y Tîm Rhyngwladol (JM)

Llundain

Emma McFadyen, Polisi Cyhoeddus, cynrychiolydd gwledydd (EMcF)
Katie Pettifer, Cyfarwyddwr, Polisi Cyhoeddus (KP)
Chloe Grant, Swyddog Cyswllt Polisi Cyhoeddus (CG)
Josh Perry, Rheolwr Llywodraethu (JP)
Jack Gaches, Cyngorydd Polisi (JG)
Hannah Taylor, Pennaeth, Polisi Defnyddwyr (HT)
Andrew Scoones, Rheolwr Polisi Defnyddwyr (AS)

Guy Holcroft, Pennaeth Mesur Cynulleidfa, Gwybodaeth am y Farchnad (GH)
James Stinson, Rheolwr Materion Rheoleiddiol, Ofcom Gogledd Iwerddon (JS)
Eitem 1: Cyflwyniad y Cadeirydd ac Ymddiheuriadau am Absenoldeb

1. Croesawodd y Cadeirydd, Hywel Wiliam (HW), yr Aelodau a staff Ofcom Cymru i gyfarfod rhif 73 o Bwyllgor Cynghori Cymru, Ofcom (ACW), a gynhaliwyd yn swyddfeydd Ofcom Cymru. Croesawodd David Jones yn benodol, Aelod Bwrdd newydd ar ran Cymru a roddodd grynodedb byr o'i yrfa a'i feysydd arbenigedd. Dywedodd HW fod ymddiheuriadau wedi dod i law gan Jacqui Gregory, Aled Eirug a Karen Lewis.
2. Ymunodd Katie Pettifer ac Emma McFadyen â'r cyfarfod drwy gyfrwng cynhadledd fideo.

Eitem 2: Diweddarau datganiadau o fuddiannau'r Aelodau

3. Dim ychwanegiadau gan Aelodau.

Eitem 3: Cofnodion Cyfarfod Rhif 72 - Materion yn Codi a Chamau Gweithredu

4. Adolygwyd Cofnodion cyfarfod rhif 72 o Bwyllgor Cynghori Cymru Ofcom ac ar ôl gwneud mân newidiadau, cadarnhaodd y Cadeirydd eu bod yn gofnod cywir o'r cyfarfod. LN i'w newid a'u hanfon at HW i'w cymeradwyo'n derfynol.

CAM GWEITHREDU – LN

5. Nodwyd y camau gweithredu canlynol o gyfarfod rhif 72:
 - a. Cofnod 12d – Mae Kevin Bakhurst yn bwriadu cynnal sesiwn cyn yr haf ar reoleiddio'r BBC a bydd Ofcom Cymru yn cynnwys eitem ar agenda cyfarfod mis Medi.
Erbyn hyn, mae'r grwpiau ffocws wedi dod i ben yng Nghymru ac mae'r tîm adolygu newyddion wedi cynnig cael sesiwn gyda Phwyllgor Cynghori Cymru cyn mis Medi. EW i gysylltu â'r tîm polisi a threfnu dyddiad cyfleus. **CAM GWEITHREDU – EW**
 - b. Cofnod 24d – HW i ofyn i KL roi'r wybodaeth ddiweddaraf yn y cyfarfod nesaf. **CAM GWEITHREDU - KL**
 - c. Cofnod 24e – wedi gweithredu. Mae'r BBC wedi cynnig rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yng nghyfarfod mis Medi a threfnu taith bosibl.
 - d. Cofnod 24g – cam gweithredu heb ei gyflawni
 - e. Cofnod 24h – wedi gweithredu
 - f. Cofnod 46 – wedi gweithredu
 - g. Cofnod 57 – cam gweithredu heb ei gyflawni – yn aros am ymateb gan JG.

Eitem 4: Adroddiad y Cadeirydd

6. Rhoddodd HW ddiweddariad llafar o weithgareddau'r Cadeirydd ers y cyfarfod diwethaf.
 - Aeth i'r digwyddiad Which yn Llundain ynghylch tegwch i gwsmeriaid;
 - Fe wnaeth longyfarch Ofcom Cymru am y digwyddiad radio diweddar – roedd llawer o randdeiliaid yn bresennol a chafwyd trafodaethau da;
 - Dywedodd y bydd yn mynd i ddigwyddiad radio Prifysgol De Cymru a fydd yn cynnwys gweithredwyr radio cymunedol. Y nod yw edrych ar radio yn fwy eang yng Nghymru a gofynnwyd i HW siarad;
 - Gydag AE ac EM, roedd wedi paratoi datganiad yn ymateb i'r helynt am radio masnachol yng Nghymru a chytunodd y cydweithwyr bod y datganiad wedi helpu i wella'r sefyllfa i raddau;

- Mae'n parhau i weithio gyda PT ar y prosiect ymchwil cysylltedd parciau busnes a soniodd wrth yr aelodau am y cynnydd a'r canfyddiadau hyd yma, gan gynnwys ymweliad arfaethedig i ganolfan Wrecsam yn yr Hydref;
- Aeth HW i'r Confensiwn Dinasoedd Creadigol yng Nghaerdydd;
- Derbyniodd adborth da o'r digwyddiad Symud i VOIP a gynhaliodd Ofcom Cymru.

Eitem 5: Aelod Bwrdd Ofcom ar ran Cymru

7. Rhoddodd DJ drosolwg byr o'i safbwyntiau cychwynnol ers ymuno ag Ofcom a beth mae'n ei ystyried fel prif feysydd cyfrifoldeb Ofcom yn y dyfodol, sef tri phrif faes: cyfathrebu, cynnwys ac ar-lein. Bydd y rhain yn eitemau mawr ar agenda'r Bwrdd mewn amgylchedd sy'n symud yn gyflym. Mae'n edrych ymlaen at weithio'n agos gyda chydweithwyr Ofcom ac aelodau o Bwyllgor Cynghori Cymru.
8. Cafwyd trafodaeth am her Ofcom i fynd i'r afael â niwed ar-lein er mwyn cyd-fynd â thechnoleg sy'n newid yn gyflym. Roedd yr aelodau wedi sylweddoli bod y chwaraewyr mawr megis Amazon, Google ac Apple wedi newid eu hagwedd at bwysigrwydd diogelwch yn ddiweddar (yn rhannol oherwydd GDPR).

Eitem 6: Arddangosiad Diligent

9. Cafwyd cyflwyniad cynhwysfawr gan Josh Perry a Laura o Diligent, a chafodd hyn ei groesawu gan yr aelodau. Dim ond un aelod oedd wedi cael problem â'r feddalwedd oherwydd y defnydd o galedwedd hen-ffasiwn, nid oedd yr un aelod arall wedi sôn am unrhyw broblemau. Croesawodd yr aelodau'r feddalwedd fel adnodd defnyddiol, mwy diogel.

Eitem 7: Diweddariad – Aelod o'r Bwrdd Cynnwys ar ran Cymru

10. Roedd AE wedi dosbarthu adroddiad diweddar ymlaen llaw ac ystyriwyd bod pawb wedi'i ddarllen.
11. Yn ei absenoldeb, trafododd yr Aelodau eitemau amrywiol yn ei adroddiad gan gynnwys dadreoleiddio radio masnachol lleol. Mynegodd yr aelodau bryder am y niwed posibl i enw da Pwyllgor Cynghori Cymru ac Ofcom Cymru, ac fe nododd un aelod bod nifer y trydariadau am y mater i'w chyfrif Twitter personol wedi cynyddu, a oedd yn destun pryder.
12. Cynigiwyd y byddai modd ystyried y datblygiad hwn fel cyfle cadarnhaol ar gyfer radio cymunedol ac y dylai Ofcom ganolbwyntio ar beth sydd nesaf. Awgrymwyd y gallai'r Pwyllgor gael trafodaeth anffurfiol gyda Kevin Bakhurst pan fydd yn ymweld â Chaerdydd. Ofcom Cymru i gysylltu â KB gyda'r dyddiadau arfaethedig.
CAM GWEITHREDU – EW
13. I baratoi ar gyfer hyn, cytunodd yr aelodau i ffurfio grŵp trafod i gasglu syniadau ar gyfer papur safbwynt a chytunwyd i gyfarfod tua diwedd mis Mehefin.
CAM GWEITHREDU - HW
14. Hefyd, trafododd yr aelodau'r ymgynghoriad presennol ynghylch iPlayer a BBC Sounds a nodwyd ym mhapur AE. Ymhelaethodd RA ar ei bryderon ynghylch Polisi Dosbarthu'r BBC a gofynnodd a allai Ofcom gynnig arweiniad ynglŷn â'r cwestiwn a yw penderfyniad y BBC i atal mynediad y gynulleidfa at bodlediadau'r BBC drwy wasanaethau Google, gan ofyn yn

hytrach i ddefnyddwyr ddefnyddio ei wasanaeth BBC Sounds ei hun, yn gyson â'i rwymedigaethau dan ei Bolisi Dosbarthu gydag Ofcom? Mae pryder ynghylch ei effaith ar y sector annibynnol yng Nghymru. Cytunodd DJ i godi pryderon y Pwyllgor gyda Bwrdd Ofcom ac i adrodd yn ôl i'r aelodau.

CAM GWEITHREDU - DJ

Eitem 8: Adroddiad – Polisi Cyhoeddus

15. Diolchodd KP i CG am baratoi papur diweddarau cynhwysfawr a oedd wedi'i ddsbarthu ymlaen llaw.

16. Yn ychwanegol at yr adroddiad, ymhelaethodd ar dri maes:

- 1) Rhoddodd ddiweddariad cyffredinol am y newidiadau cyflym sy'n digwydd yn Llywodraeth y DU ar hyn o bryd. Ar ôl penodi Prif Weinidog newydd, mae'n debygol y bydd Gweinidogion yn cael eu symud a bydd hyn yn effeithio ar y broses o wneud penderfyniadau mewn meysydd sy'n pryderu Ofcom. Bydd hyn yn effeithio ar y cynnydd o ran y gwaith niwed ar-lein wrth i'r Gweinidogion newydd gael eu briffio a'u diweddarau.
- 2) Darpariaeth symudol – ar hyn o bryd mae llawer o drafodaethau ym mynd rhagddynt rhwng Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a Gweithredwyr Rhwydwaith Ffonau Symudol, gyda'r gweithredwyr yn ceisio dod i gytundeb. Mae rhywfaint o gynnydd cadarnhaol wedi bod ac mae Ofcom yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd â'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Mae cyfarfod wedi'i drefnu gyda'r Ysgrifennydd Gwladol yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 17 Mehefin. Mae'r gweithredwyr yn cynnig rhannu seilwaith a fydd yn golygu bod y llywodraeth yn ymrwymo arian i'r cynllun. Ni fydd Ofcom yn ystyried gollwng ei rwymedigaethau o ran darpariaeth nes cyrraedd cytundeb cadarn. Bydd Bwrdd Ofcom yn trafod hyn yn y cyfarfod nesaf.
- 3) Huawei - Gallai'r sefyllfa bresennol olygu goblygiadau difrifol i ddefnyddwyr y DU gyda phryder ynghylch gwytnwch a diogelwch, sydd heb eu diffinio'n llawn. Mae llywodraeth y DU yn asesu'r goblygiadau ar hyn o bryd ac mae Ofcom yn gwyllo gyda diddordeb. Dywedodd KP nad yw Ofcom yn cymryd rhan ar hyn o bryd ond efallai bydd angen cyngor technegol ganddynt ar ryw adeg. Argymhellodd KP i'r aelodau ddarllen blog Saesneg gan Ian Levy sy'n egluro'r materion yn glir. Cynigiodd KP/EMcF ddsbarthu'r ddolen i'r aelodau.

CAM GWEITHREDU: KP/EMcF

Eitem 9: Y Diweddaraf gan y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau

17. Roedd KL wedi darparu adroddiad diweddarau i'r aelodau ymlaen llaw ac ystyriwyd bod pawb wedi'i ddarllen.

Eitem 10: Adroddiad – Datblygiadau Diweddar yng Nghymru

18. Roedd EM wedi rhannu adroddiad diweddarau ymlaen llaw. Tynnodd sylw at bwyntiau amrywiol:

- Roedd trafodaeth ar 5G yng nghyfarfod diweddar y Bwrdd Cyngori
- Mae diddordeb mawr yn parhau yn y cyfryngau ynghylch radio yng Nghymru – ystyriwyd yn gyffredinol bod y datganiad a gyhoeddodd Ofcom fel ymateb yn gadarnhaol.

- Roedd Diwrnod y Gwledydd Ofcom (cynhaliwyd gan Ofcom Cymru) yn llwyddiannus iawn, a chafodd y cydweithwyr drafodaethau da ac ymweliadau gwych. Derbyniodd y tîm adborth da a diolchodd EM i EW a LN am drefnu'r ddau ddiwrnod.
 - Gofod swyddfa newydd yn Caspian Point – Diolchodd EM i'r aelodau am eu cefnogaeth i helpu i gyflawni'r nod hwn a dywedodd y bydd Ofcom Cymru yn mynd ati i drafod sut gallant ddefnyddio'r gofod orau ac annog twf. Roedd PT yn cydnabod bod hysbysebu swyddi Ofcom yn niwtral o ran lleoliad yn gam cadarnhaol.
 - Mae EM wedi'i phenodi yn noddwr Age and Generation Ofcom a bydd yn ymgysylltu â rhanddeiliaid cenedlaethau'r dyfodol ar gyfer trafodaethau pellach.
 - Teimlai AB fod penderfyniad Llywodraeth Cymru i benodi Terry Burns i arwain y comisiwn sy'n edrych ar opsiynau eraill i ffordd liniaru'r M4 yn cael ei ystyried yn gam cadarnhaol.
 - Yn gyffredinol, mynegodd yr Aelodau'n eu siom bod Sharon White yn symud ymlaen.
19. Rhoddodd EW wybod i'r cyfarfod am ddatblygiad diweddar ers adroddiad y Cyfarwyddwr. Derbyniodd Ofcom Cymru hysbysiad o ymchwiliad ffurfiol i gŵyn a wnaed i Gomisiynydd y Gymraeg gan aelod o'r cyhoedd am linell ffôn Gymraeg Ofcom. Mae gennym 10 diwrnod i ymateb. Mynegodd yr aelodau bryder am sut gall hyn effeithio ar enw da Ofcom yn y maes hwn, ac roeddent yn teimlo bod siaradwyr Gymraeg yn cael gwasanaeth ffôn mwy pwrpasol. Dywedodd EW y dylai'r ymchwiliad gael ei gwblhau erbyn diwedd mis Medi ac mae Ofcom Cymru yn bwriadu gwahodd Comisiynydd y Gymraeg i gyfarfod mis Medi'r PCC er bod y ceisiadau blaenorol i gael cyfarfod wedi cael eu gwrthod.
20. Tynnodd EW sylw'r aelodau at gyfarfod diweddar y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu gyda'r Dirprwy Weinidog Diwylliant a soniodd droeon am Aelod Bwrdd newydd Ofcom a Phwyllgor Cyngori Cymru. Cytunodd i ddsbarthu dolen i'r trawsgrifiad.
- CAM GWEITHREDU – EW**

Eitem 11: Dyletswydd Gwasanaeth Cyffredinol Band Eang - Diweddariad

21. Croesawodd y Cadeirydd Jack Gaches, Hannah Taylor ac Andrew Scoones i'r cyfarfod drwy gyfrwng cynhadledd fideo a diolchodd iddynt am ddarparu papur diweddar.
22. Dywedodd JG fod Ofcom wedi cyhoeddi ei gynnig yn ddiweddar i ddynodi BT a KCOM fel darparwyr gwasanaeth cyffredinol band eang y DU. Hefyd, mae Ofcom yn ymgynghori ynghylch y rhwymedigaethau a ddylai fod yn berthnasol iddynt wrth ddarparu'r gwasanaeth cyffredinol gan gynnwys monitro'r broses o gadw cofnodion a meini prawf perfformiad. Cam nesaf Ofcom fydd ymgynghori ynghylch rheoleiddio cyllid yn ystod Hydref 2019 a fydd yn cynnwys gweithdrefnau ar gyfer unrhyw iawndal gallai darparwyr gwasanaethau cyffredinol eu hawlio. Disgwylir cyhoeddi datganiad gael i ddod â'r rheoliadau hyn i rym erbyn dechrau 2020.
23. Cafwyd trafodaeth ar ffigyrau'r adroddiad a oedd yn berthnasol i Gymru. Nodwyd y bydd Openreach yn cynnal dadansoddiad data dros y misoedd nesaf.

Eitem 12: Cysylltu'r Gwledydd (Cymru) 2019 – trafodaeth fewnol

24. Cafwyd trafodaeth lawn am adroddiad eleni. Roedd yr aelodau'n credu ei fod yn wych ac yn cynnwys astudiaethau achos da.

25. Trafododd yr aelodau'r posibilrwydd o gynnwys rhagor o astudiaethau achos megis yr un am gysylltedd parciau busnes sy'n destun gwaith ymchwil ar hyn o bryd. O bosibl gan gynnwys tref gyfan (tebyg i ymarfer cymharu a chyferbynnu).
26. Dywedodd EW fod data eisoes yn bodoli ar lefel etholaeth ac y gall Ofcom gael mynediad atynt drwy Power BI. Awgrymwyd y dylai aelodau gysylltu â KL ynghylch cynnal ymchwil ar gysylltedd trefol mewn etholaeth. Efallai bydd cyllid ar gael drwy'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebu – HW i awgrymu comisiynu rhywfaint o waith ymchwil penodol.
CAM GWEITHREDU – PWYLLGOR CYNGHORI CYMRU
27. Dywedodd EW fod gan Ofcom ddata perthnasol ar hyn o bryd ac roedd yr aelodau'n credu y dylid hysbysebu ei fod ar gael. Awgrymwyd y dylid trefnu sgwrs â'r adran ymchwil – cytunodd EW i drafod y posibilrwydd â chydweithwyr.
CAM GWEITHREDU – EW
28. Wrth gloi, awgrymwyd dwy astudiaeth achos – Busnesau Bach a Chanolig mewn etholaeth wledig a chynhwysiant ac amddifadedd (ardal drefol). EW i siarad â'r tîm gan fod yr amserlen yn eithaf tynn.
CAM GWEITHREDU – EW
29. Roedd yr aelodau'n croesawu cynnwys tablau cymharu yn yr adroddiad gan eu bod yn credu eu bod yn werthfawr ac yn adnoddau meincnodi defnyddiol.

Eitem 13: Adroddiad Cyfryngau'r Genedl 2019

30. Croesawodd HW James Stinson (Gogledd Iwerddon) drwy gynhadledd fideo a Guy Holcroft dros y ffôn. Roeddent wedi dosbarthu papur ymlaen llaw a oedd yn dangos y canfyddiadau lefel uchel cynnar ar gyfer Cymru sy'n deillio o gyhoeddiadau Cyfryngau'r Genedl eleni. Eleni, bydd adroddiadau ar wahân ar gyfer pob gwlad ac mae'r aelodau'n credu y bydd yr adroddiadau'n ffynonellau gwybodaeth cynhwysfawr iawn. Dywedodd HW, o gymharu ag adroddiad 2018, roedd mwy o ddadansoddiad o'r ffordd mae pobl yn cael gafael ar newyddion ac roedd yn meddwl fod hyn yn ddefnyddiol.
31. Nododd yr aelodau nad oedd adroddiad y llynedd yn canolbwyntio cymaint ar gydgyfeirio. Hefyd, byddent yn hoffi gweld dadansoddiad o beth mae'n ei olygu ar draws yr holl blatfformau ac awgrymwyd cynnal astudiaethau achos ar ddefnyddio'r cyfryngau, gan ganolbwyntio'n benodol ar bobl ifanc.
32. Nododd HW nad yw'r seinyddion clyfar yn gallu delio â'r iaith Gymraeg ar hyn o bryd. Cytunodd y tîm i grybwyll y pwynt yma.
CAM GWEITHREDU - GH/JS
33. Gan y bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi ymhen dau fis, cynigiodd HW y byddai'r Pwyllgor yn awgrymu ardaloedd ar gyfer astudiaethau achos fel mater o frys. EW i gysylltu â'r tîm
CAM GWEITHREDU – EW
34. Gofynnodd RA gwestiwn ynghylch podlediadau defnyddwyr a 'gwrando eto' a sut byddai'r defnydd yn cael ei ddadansoddi – dywedodd GH bod dull dadansoddi yn cael ei ystyried.

35. Dywedodd RMcE fod yr adroddiad yn ddefnyddiol iawn ond hoffai fwy o ddata y Tu Allan i Lundain. Nododd y tîm hynny.
36. Croesawodd GH sylwadau'r Pwyllgor a chytunodd JS i edrych yn fanylach ar y defnydd o newyddion yng Nghymru.
37. Teimlodd AB fod y data yn ymwneud â setiau teledu clyfar yn ddiddorol a gofynnodd a yw'n bosibl gwahaniaethu pa dechnoleg sy'n cael ei ddefnyddio ee setiau teledu clyfar neu flwch pen-set. Dywedodd GH fod gan Ofcom y data hwnnw ac fe allant ei rannu yn ôl pob cenedl.
38. Trafododd yr aelodau syniadau ar gyfer astudiaethau achos a fyddai'n canolbwyntio ar ffynonellau newyddion ac ar gael gafael ar newyddion mewn amgylchedd cydgyfeiriol. Byddai hyn yn ategu canfyddiadau'r grwpiau ffocws diweddar. Cytunwyd y byddai'r Pwyllgor yn paratoi naratif i gyd-fynd â'r syniadau ar gyfer astudiaethau achos. HW i ddrافتio papur a'i ddsbarthu i RA/RMcE er mwyn cael adborth arno yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 17 Mehefin. Dylid ei roi i dîm y prosiect erbyn 21 Mehefin. Yna, bydd EW yn trefnu trafodaeth rhwng y tîm adolygu newyddion a'r aelodau cyn gynted ag y bo modd.
- CAM GWEITHREDU – EW**
39. Diolchodd HW i aelodau'r tîm am eu cyfraniadau.

Eitem 14: Cynrychiadau Ffilm a Theledu Mawr yng Nghymru (Adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu) a Chymru Greadigol

40. Trafododd yr aelodau'r adroddiad a ddygwyd i'w sylw gan Ruth a thynnwyd sylw at bwyntiau a oedd yn berthnasol i Ofcom o ran monitro cynrychiadau y Tu Allan i Lundain. Teimlwyd y gallai'r rheoleiddiwr ychwanegu gwerth i wneud yn siŵr bod Cymru yn cael ei chwota a fyddai'n helpu i ddatblygu a chynnal sgiliau yng Nghymru. Pwysleisiodd RMcE mai adroddiad y Pwyllgor oedd hwn, ac nid barn Llywodraeth Cymru. Cynigiwyd gwahodd cynrychiolwyr Cymru Greadigol i roi cyflwyniad yng nghyfarfod nesaf Pwyllgor Cynghori Cymru ym mis Medi.
- CAM GWEITHREDU - Ofcom Cymru**

Eitem 15: Unrhyw fater arall ac eitemau ar gyfer agendâu'r dyfodol-

41. EW i atgoffa'r cyfarfod bod Ofcom Cymru yn cynnal y digwyddiad Arloesi a Thechnoleg ar 2 Gorffennaf ac annog yr aelodau i gofrestru ar gyfer y digwyddiad drwy Eventbrite.
42. Soniodd HW ei fod yn awyddus i drefnu digwyddiad hyfforddi arall ar gyfer aelodau'r Pwyllgor yn yr Hydref a bydd yn trafod dyddiadau ag Ofcom Cymru.
- CAM GWEITHREDU – HW/EW**
43. Dylai'r aelodau nodi y bydd cyfarfod mis Medi yn cael ei gynnal yng ngogledd Cymru a bydd Ofcom Cymru yn rhoi gwybod am y trefniadau cyn gynted ag y bo modd. HW/PT i archwilio'r posibilrwydd o gynnwys ymweliad i'r Ganolfan yn Wrecsam.
- CAM GWEITHREDU - HW/PT**

Eitemau 16-17: Er Gwybodaeth

Dyddiad y cyfarfod nesaf:

24 Medi – Gogledd Cymru i’w gadarnhau
(SYLWER Y NEWID O FEDI 26)

Cofnodion Pwyllgor Cyngori Cymru, 11 Mehefin 2019

Llofnod Dyddiad
Hywel Wiliam, Cadeirydd, Pwyllgor Cyngori Cymru, Ofcom